# Adolygiad o Gynlluniau Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod

Cais am Fewnbwn

Cais am Fewnbwn

| | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 31 Mawrth 2017 |
| Dyddiad Olaf ar gyfer derbyn Ymatebion: | 12 Mai 2017 |

# Gair am y ddogfen hon

Mae'r broses a elwir yn ddulliau amgen o ddatrys anghydfod (ADR) yn rhan bwysig o'r amddiffyniad sydd ar gael i ddefnyddwyr sydd â chwynion am eu darparwr cyfathrebiadau. Mae'n rhaid i bob darparwr cyfathrebiadau fod yn aelodau o gynllun ADR sydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom. Gall defnyddwyr fynd â'u cwyn at gynllun ADR wyth wythnos ar ôl iddynt gwyno neu, cyn hynny, pan mae'r gŵyn wedi cyrraedd sefyllfa ddiddatrys.

O dan y pwerau yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 (y "Ddeddf"), mae Ofcom ar hyn o bryd yn cymeradwyo dau gynllun ADR: Ombudsman Services: Cyfathrebiadau ("OS") a'r Communications and Internet Services Adjudication Scheme ("CISAS"). Mae'n ofynnol i ni barhau i adolygu'r gymeradwyaeth hon.

Y Cais am Fewnbwn hwn sy'n dechrau'r adolygiad hwn ac mae'n gofyn i randdeiliaid am sylwadau am OS a CISAS ers ein hadolygiad diwethaf yn 2012. Yn benodol, rydym yn awyddus i gael barn rhanddeiliaid am sut mae'r cynlluniau wedi perfformio mewn perthynas â'r meini prawf yn y Ddeddf, megis eu hygyrchedd a'u heffeithiolrwydd, ac a yw'r mesurau rydym wedi eu rhoi ar waith i sicrhau effeithiolrwydd y cynlluniau yn dal yn briodol.

# Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Adolygiad o'r cynlluniau Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod sydd wedi'u cymeradwyo | 1 |

| Atodiad | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Ymateb i'r Cais hwn am Fewnbwn | 7 |
| 2 | Egwyddorion ymgynghori Ofcom | 9 |

Adran 1

# Adolygiad o'r cynlluniau Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod sydd wedi'u cymeradwyo

## Y Cefndir

1. Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf) yn gosod dyletswydd ar Ofcom i sicrhau bod gweithdrefnau priodol ar gael ar gyfer y dulliau amgen o ddatrys anghydfod (ADR). Drwy Amod Cyffredinol 14.5, rydym yn mynnu bod pob Darparwr Cyfathrebiadau yn aelod o gynllun ADR. Ar hyn o bryd, rydym yn cymeradwyo dau gynllun o'r fath: Ombudsman Services: Communications (OS)[1] a'r Communications and Internet Services Adjudication Scheme ("CISAS")[2]. Mae pob darparwr cyfathrebiadau'n cael dewis pa un o'r ddau gynllun ADR y maent yn aelod ohono. Mae Gwiriwr ADR Ofcom yn rhoi gwybodaeth am y cynllun ADR y mae pob Darparwr Cyfathrebiadau yn perthyn iddo.[3]

2. Mae'n rhaid i Ofcom barhau i adolygu ein cymeradwyaeth o'r cynlluniau ADR ac rydym yn awr yn adolygu perfformiad OS a CISAS (gan gynnwys gweithrediadau, strwythur a rheolau'r ddau sefydliad). Mae'r Cais am Fewnbwn hwn yn rhoi cyfle i randdeiliaid roi gwybod i Ofcom am unrhyw faterion a ddylai, yn eu barn nhw, gael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn.

3. Cafodd OS a CISAS hefyd eu cymeradwyo gan Ofcom yn 2015 fel cynlluniau ADR o dan Reoliadau Cynlluniau Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod ar gyfer Anghydfodau Defnyddwyr 2015 (Rheoliadau ADR)[4]. O dan y Rheoliadau hyn, rhaid cymeradwyo'r cynlluniau bob dwy flynedd. Felly, fel rhan o'r adolygiad presennol, byddwn hefyd yn asesu a yw OS a CISAS yn parhau i fodloni gofynion Rheoliadau ADR. Gwahoddwyd rhanddeiliaid hefyd i roi sylwadau ar yr agwedd hon ar yr adolygiad, petaent yn dymuno gwneud hynny.

## Cwmpas yr Adolygiad hwn

4. Yn yr adolygiad hwn, mae'n debyg y bydd yr opsiynau canlynol ar gael i ni:

   i) parhau i gymeradwyo'r ddau gynllun heb awgrymu newidiadau (h.y. y status quo);

   ii) parhau i gymeradwyo'r ddau gynllun ond yn amodol ar y naill neu'r llall neu'r ddau yn gwneud newidiadau i'w rheolau a'u gweithrediadau; neu

   iii) diddymu cymeradwyaeth un neu'r ddau gynllun.

[1] https://www.ombudsman-services.org/communications.html
[2] https://www.cedr.com/cisas
[3] https://www.ofcom.org.uk/phones-telecoms-and-internet/advice-for-consumers/problems/adr-schemes
[4] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/542/contents/made

5. Yn ystod yr adolygiad blaenorol, a gwblhawyd yn 2012[5], sefydlodd ac ymgynghorodd Ofcom ar set o feini prawf y dylai cynlluniau eu bodloni er mwyn i Ofcom gadarnhau bod y cynlluniau yn cael eu cymeradwyo neu eu hailgymeradwyo. Bwriadwn ddefnyddio'r un meini prawf fel sail i'n hasesiad ar gyfer yr adolygiad hwn[6]:

- Hygyrchedd
- Annibyniaeth
- Tegwch
- Effeithlonrwydd
- Tryloywder
- Effeithiolrwydd
- Atebolrwydd

## Hygyrchedd

6. Bydd yr adolygiad yn ystyried pa mor hygyrch yw'r cynlluniau. Yn benodol, byddwn yn ystyried pa mor syml ydy'r drefn gwyno i ddefnyddwyr, gan gynnwys defnyddwyr ag anableddau a'r rheini mewn amgylchiadau bregus. Byddwn yn adolygu:

- pa mor hawdd ydy hi i ddefnyddwyr gael gafael ar yr holl wybodaeth berthnasol;
- eglurder y wybodaeth honno;
- y gefnogaeth sydd ar gael i'r rheini sy'n cael trafferthion cyflwyno'u hachos; ac
- unrhyw rwystrau sy'n atal defnyddwyr rhag gwneud cais i'r cynlluniau.

### Annibyniaeth

7. O dan y Ddeddf, mae'n rhaid i'r cynlluniau gael eu gweinyddu gan y rheini sy'n annibynnol ar Ofcom a'r Darparwyr Cyfathrebiadau. Bydd ein hadolygiad yn cynnwys ystyried:

- y gweithdrefnau llywodraethu sydd ar waith i sicrhau nad yw'r cwmnïau sy'n aelodau'n dylanwadu'n ormodol ar benderfyniadau;
- y mesurau sydd gan y ddau gynllun ar waith i sicrhau bod swyddogion ADR yn cyflawni eu dyletswyddau mewn ffordd nad yw'n rhagfarnu yn erbyn y naill barti na'r llall yn yr anghydfod;
- rheolau'r cynlluniau i sicrhau bod unrhyw wrthdaro posibl rhwng buddiannau yn cael ei ddatgelu ac yn cael sylw.

[5] https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-3/adr-review-12
[6] Byddwn hefyd yn bodloni'n hunain bod y cynlluniau yn ateb y gofynion yn atodlen 3 y Rheoliadau ADR, y mae'r meini prawf hyn fwy neu lai yn gydnaws â nhw.

## Tegwch

8. Byddwn yn ystyried i ba raddau y mae gweithdrefnau a phenderfyniadau'r cynlluniau'n deg ac yn rhesymol. Bydd ein hadolygiad yn cynnwys:

- sicrhau bod y cynlluniau yn rhoi cyfle i'r partïon mewn anghydfod gyflwyno'r holl ddogfennau, tystiolaeth a dadleuon perthnasol o fewn cyfnod rhesymol;
- sicrhau bod pwyntiau adolygu priodol ar gyfer achosion, bod staff yn cael eu hyfforddi'n briodol, a bod canllawiau mewnol priodol ar gael ar gyfer sut y dylid dod i benderfyniad mewn achosion penodol;
- sicrhau bod y partïon yn cael gwybod am ganlyniad yr achos gan gynnwys gwybodaeth am sail y canlyniad;
- sicrhau bod defnyddwyr yn cael cyfle i gwyno am y broses a ddilynwyd gan y cynlluniau wrth iddynt archwilio achosion, gan gynnwys y cyfle i'w cwyn gael ei hadolygu'n annibynnol.

9. Bydd ein hadolygiad yn cynnwys archwilio sampl o achosion i asesu i ba raddau yr oedd y penderfyniadau yn yr achosion hynny yn deg a rhesymol, ac a oedd y penderfyniadau a wnaethpwyd mewn achosion tebyg yn gymharol gyson (o fewn a rhwng cynlluniau)[7].

## Effeithlonrwydd

10. Bydd yr adolygiad yn ystyried:

- pa mor amserol oedd y cynlluniau yn delio ag achosion; ac
- i ba raddau y mae eu prosesau, gan gynnwys strwythur eu ffioedd, yn effeithlon ac yn ysgogi Darparwyr Cyfathrebiadau a'r cynlluniau i ddod i ganlyniad priodol ac effeithlon.

11. O ran amseroldeb delio ag achosion, mae'n rhaid i'r ddau gynllun roi adroddiad i Ofcom bob mis ar eu perfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol. O dan y Dangosyddion Perfformiad Allweddol cyfredol:

- mae'n rhaid i dros 80% o alwadau gael eu hateb mewn llai na dau funud;
- mae'n rhaid i dros 90% o alwadau gael eu hateb mewn llai na phum munud;
- mae'n rhaid ymateb i 100% o ohebiaeth ysgrifenedig cyn pen deg diwrnod;
- mae'n rhaid i dros 90% o benderfyniadau mewn achosion gael eu cyhoeddi o fewn chwe wythnos; a
- llai nag 1% o benderfyniadau mewn achosion i gael eu cyhoeddi ar ôl wyth wythnos[8].

[7] Rydym wedi penodi cwmni allanol o ymgynghorwyr – Mott MacDonald – i gynnal yr asesiad hwn.
[8] https://www.cedr.com/cisas/reports a https://www.ombudsman-services.org/annual-reports-os.html

12. Y llynedd, mae OS yn benodol wedi wynebu heriau wrth gyflawni rhai o'r dangosyddion perfformiad allweddol. Mae OS wedi dweud mai cynnydd mawr mewn cwynion am un darparwr oedd y prif reswm am eu methiant i gyflawni'r dangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r cynnydd hwn wedi cyd-daro â chynnydd mwy cyffredinol yn nifer y cwynion a all fod oherwydd bod Darparwyr Cyfathrebiadau wedi rhoi gwybod i fwy o ddefnyddwyr am yr hawl i ADR pan fydd achos wedi cyrraedd sefyllfa ddiddatrys neu ar ôl wyth wythnos.

13. Pan mae nifer yr achosion sy'n troi at ADR yn cynyddu'n sylweddol, mae angen i'r cynlluniau ddarparu rhagor o adnoddau - naill ai drwy gyflogi rhagor o staff neu drwy ddarparu'r gwaith yn allanol. Mae'n cymryd sawl mis i hyfforddi staff newydd (gan gynnwys sefydliadau allanol) ac iddynt fod yn gwbl effeithiol. Felly, mae'n bwysig fod cynlluniau'n gallu rhagweld unrhyw gynnydd sylweddol mewn achosion cyn gynted ag sy'n bosibl.   I wneud hyn, mae cynlluniau angen cael gwybodaeth ddibynadwy gan Ddarparwyr Cyfathrebiadau - a ffynonellau eraill hefyd efallai - am dueddiadau yn niferoedd y cwynion.

14. Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddwn yn ystyried a oes modd gwella'r wybodaeth sydd ar gael i'r cynlluniau am niferoedd y cwynion, ac os oes, sut y gellir gwneud hyn. Er enghraifft, mewn rhai sectorau, mae cwmnïau y mae nifer eu hachosion yn fwy na'u rhagamcanion yn talu ffioedd ADR uwch na'r rheini y mae eu niferoedd yn gydnaws â'u rhagamcanion. Nid yw trefniadau o'r fath yn gyffredin yn y sector cyfathrebiadau, a byddwn yn ystyried a fyddent yn briodol ac, os byddant, sut y gellid goresgyn unrhyw rwystrau i'w cyflwyno.

15. Byddwn hefyd yn ystyried a oes gan y cynlluniau'r trefniadau a'r cymhellion gofynnol i ganfod a rhoi sylw i risgiau a all eu hatal rhag cyflawni eu dangosyddion perfformiad allweddol.  Er enghraifft, pan na fydd y dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu cyflawni dros gyfnod hir, efallai y dylai cynlluniau gael trydydd partïon i ddarparu cyngor ychwanegol ar eu prosesau, neu efallai y dylai sbarduno adolygiad gan Ofcom o'r gymeradwyaeth sydd wedi'i rhoi i'r cynllun(iau).

16. Nid yw'n dderbyniol bod defnyddwyr sydd wedi bod yn ceisio datrys cwyn gyda'u darparwyr cyfathrebiadau am wyth wythnos yn gorfod disgwyl am amser hir i'r cynllun wneud penderfyniad ar eu hachos. Byddwn yn ystyried a yw defnyddwyr yn cael digon o wybodaeth am yr amserlenni safonol ar gyfer ystyried achos ADR, a ydynt yn cael gwybod am unrhyw oedi a'u hawl i gwyno am oedi gormodol.

17. Mae gan y ddau gynllun berson annibynnol - yr Adolygydd Annibynnol yn CISAS a'r Asesydd Annibynnol yn OS - a fydd yn y pen draw yn ystyried cwyn a wneir am y ffordd y bydd y cynllun perthnasol wedi delio â'r achos, gan gynnwys oedi gormodol (ond nid y penderfyniad yn yr achos) a gall ei gwneud yn ofynnol i'r cynlluniau ymddiheuro neu roi dyfarniad ariannol.   Byddwn yn ystyried a yw rôl yr Adolygydd/Asesydd Annibynnol yn cael ei hesbonio'n ddigonol i ddefnyddwyr gan y cynlluniau, a yw eu cylch gwaith yn ddigonol, ac a oes gan yr Adolygydd/Asesydd annibynnol ddigon o allu i wneud argymhellion ehangach am brosesau'r cynlluniau.

### Tryloywder

18. Bydd yr adolygiad yn ystyried i ba raddau y mae penderfyniadau a'r prosesau gwneud penderfyniadau'n glir i ddefnyddwyr a Darparwyr Cyfathrebiadau. Byddwn hefyd yn ystyried y wybodaeth a ddarperir gan y cynlluniau am yr achosion y maent yn eu derbyn. Ar hyn o bryd, mae cynlluniau'n cyhoeddi gwybodaeth gyfun am nifer yr achosion a mathau o gwynion. Gan weithio gydag Ofcom, mae'r cynlluniau bellach

yn bwriadu ymestyn y wybodaeth hon i roi rhagor o fanylion am achosion ar sail darparwr penodol.

**Effeithiolrwydd**

19. Bydd yr adolygiad yn ystyried a yw'r cynlluniau'n effeithiol yn:

- sicrhau yr ymchwilir yn effeithiol i achosion;
- cadw cofnodion cywir o'r achosion a dderbynnir, manylion yr achosion a'r penderfyniadau a wneir; a
- monitro'r broses o roi'r penderfyniadau ar waith.

20. Rhan bwysig o rôl y cynlluniau yw gweithio gyda Darparwyr Cyfathrebiadau ac Ofcom i bennu tueddiadau mewn cwynion a phroblemau wrth ddelio â chwynion. Yn benodol, gall y cynlluniau helpu'r diwydiant i reoli cwynion yn well drwy weithio gyda Darparwyr Cyfathrebiadau i ddeall beth sy'n sbarduno cwynion a phennu lle gallai'r Darparwr Cyfathrebiadau ddatrys cwynion yn gynt er mwyn osgoi'r angen i ddefnyddwyr fynd â'u hachos at gynllun ADR. Byddwn yn ystyried sut mae'r cynlluniau'n cyflawni'r swyddogaeth hon ar hyn o bryd ac a oes meysydd lle y gallent fod yn fwy effeithiol.

**Atebolrwydd**

21. Bydd yr adolygiad yn ystyried a yw'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn rhesymol neu a oes angen gwneud addasiadau iddynt, ac a yw'r gofynion ar y cynlluniau i gyflwyno adroddiadau am eu perfformiad yn dal yn briodol. Fel rhan o'r ystyriaeth hon, byddwn yn ystyried y gofynion perfformiad newydd yn y Rheoliadau ADR.

22. Er enghraifft, dan y Rheoliadau ADR dylai achosion gael eu cwblhau, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, o fewn 90 diwrnod i gyflwyno ffeil yr achos gan y partïon, tra mae amserlenni ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol ni yn cychwyn pan fydd y defnyddiwr yn cwyno. Byddwn yn ystyried a oes angen diwygio'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol, neu a ddylid ychwanegu atynt, yn sgil gofynion ychwanegol y Rheoliadau ADR.

23. O dan y Rheoliadau ADR, mae'n rhaid i'r cynlluniau gyhoeddi adroddiad gweithgarwch blynyddol, er enghraifft yn rhoi gwybodaeth am y nifer a'r math o gwynion mae'r cynlluniau'n eu derbyn. Byddwn yn ystyried a yw'r adroddiad hwn yn ddigonol i fynd i'r afael â'r holl anghenion tryloywder ac atebolrwydd neu a oes angen rhagor o adroddiadau.

*Byddem yn croesawu sylwadau rhanddeiliaid am gwmpas yr adolygiad hwn gan gynnwys a ddylem ystyried unrhyw faterion ychwanegol. Yn benodol, rydym yn gofyn am sylwadau a thystiolaeth gan randdeiliaid am y materion a'r meysydd perfformiad sydd wedi cael eu nodi.*

## Y camau nesaf

24. Byddwn yn ystyried y sylwadau a dderbynnir drwy'r Cais am Fewnbwn hwn a chanlyniad yr astudiaeth ymgynghori gan Mott MacDonald, a fydd yn cyfrannu at yr adolygiad hwn. Byddwn hefyd yn cynnal trafodaethau gyda'r cynlluniau ADR,

rhanddeiliaid a rheoleiddwyr eraill, ac yn adolygu cwynion rydym wedi'u derbyn gan ddefnyddwyr am y cynlluniau cyn dod i unrhyw gasgliadau.

25. Gobeithiwn gwblhau'r adolygiad hwn a chyhoeddi ein casgliadau erbyn hydref 2017. Os byddwn yn cynnig newidiadau sylweddol i weithrediad ADR neu'r cynlluniau, byddwn yn ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig hyn cyn penderfynu a ddylid rhoi rhywfaint neu'r cyfan ohonynt ar waith.

**Atodiad 1**

# Ymateb i'r Cais hwn am Fewnbwn

## Sut mae ymateb

A1.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno'ch safbwyntiau a'ch sylwadau am y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn **5pm, 12 Mai 2017**.

A1.2 Mae'n well o lawer gennym gael ymatebion drwy'r ffurflen ar-lein sydd ar gael yn https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/adr-review-17. Rydym hefyd yn darparu dalen gyflwyno (https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet) ar gyfer ymatebion sy'n cael eu hanfon dros e-bost neu bost; a fyddech chi cystal â llenwi hon er mwyn ein helpu i sicrhau cyfrinachedd, ac mae'n cyflymu ein gwaith. Nid oes angen i chi wneud hyn os ydych chi'n ymateb drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein.

A1.3 Os ydy'ch ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i'w gefnogi, a fyddech chi cystal â'i anfon dros yr e-bost i ADRreview@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno (https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet). At ddibenion y Cais am Fewnbwn hwn yn unig mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn gweithio ar ôl 12 Mai 2017.

A1.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl y Cais am Fewnbwn wedi'i farcio arnynt.

Liz Roberts
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

A1.5 Os hoffech chi gyflwyno'ch ymateb mewn fformat gwahanol, (e.e. ffeil sain neu fideo), cysylltwch â Liz Roberts ar 020 7981 3060, neu anfon neges e-bost i ADRreview@ofcom.org.uk.

A1.6 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.

A1.7 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â Liz Roberts ar 020 7981 3060, neu dros yr e-bost i ADRreview@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A1.8 Mae Ceisiadau am Fewnbwn yn fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymateb ddod i ben. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb

sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk, cyn gynted ag y byddant yn dod i law.

A1.9 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.

A1.10 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.11 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn http://www.ofcom.org.uk/terms-of-use

## Y camau nesaf

A1.12 Pan fydd yr adolygiad wedi'i gwblhau, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn ystod hydref 2017.

A1.13 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom; i gael rhagor o fanylion edrychwch ar http://www.ofcom.org.uk/email-updates

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.14 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A1.15 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, ffoniwch ein desg gymorth ymgynghori ar 020 7981 3003 neu anfonwch neges drwy'r e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

Os hoffech drafod y materion hyn neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch â Steve Gettings, hyrwyddwr ymgynghori Ofcom:

Steve Gettings
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

Ffôn: 020 7981 3601
E-bost steve.gettings@ofcom.org.uk

Atodiad 2

# Egwyddorion ymgynghori Ofcom

## Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

### Cyn yr ymgynghoriad

A2.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol â phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

### Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English i helpu sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

A2.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A2.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom ydy'r prif unigolyn i gysylltu ag ef i roi barn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A2.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

### Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.7 Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant yn dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau'r ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

## Dalen cyflwyno ymateb i Gais am Fewnbwn Ofcom

### MANYLION SYLFAENOL

Teitl y Cais am Fewnbwn:

At (cyswllt Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (chi eich hun neu sefydliad(au):

Cyfeiriad (os na chafwyd ef drwy'r e-bost):

### CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dim byd | ☐ | Enw/manylion cyswllt/teitl swydd | ☐ |
| Yr ymateb cyfan | ☐ | Sefydliad | ☐ |
| Rhan o'r ymateb | ☐ | Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? | |

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw'ch sefydliad gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn golygu bod modd eich adnabod)?

### DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y caiff Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon ymateb drwy'r e-bost, caiff Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys neges e-bost ac atodiadau.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw        Llofnod (os darperir copi papur)